

Cyflwyno ein Metro  
llyw.cymru/metro



# Croeso i Metro

System deithio newydd a fydd yn trawsnewid y ffordd y byddwn ni'n teithio o gwmpas Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yw Metro. Bydd yn darparu gwasanaethau cyflymach, mwy cyson a mwy cydgysylltiedig gan ddefnyddio trenau, bysiau a rheilffyrdd ysgafn.

Bydd Metro'n dod â buddiannau yn ei sgil i deithwyr, yn uno cymunedau ac yn helpu i drawsnewid yr economi. Bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Bydd hefyd yn rhoi ffurf ar hunaniaeth ein rhanbarth.

## Cysondeb

Bydd Metro'n rhedeg o leiaf bedwar gwasanaeth yr awr ar draws yr holl rwydwaith yn ôl y galw a hyd yn oed mwy ar adrannau prysur. Bydd hyn yn rhoi profiad 'cyrraedd a mynd' i deithwyr gan ddefnyddio cerbydau a gynlluniwyd ar gyfer cyflymder a lle.

## Hawdd ei ymestyn

Cynlluniwyd Metro er mwyn iddo allu tyfua dod yn fwy hygyrch fyth. Gorsafoedd newydd, llwybrau newydd, siwrneiau mwy cyson – yn y dyfodol gall y rhwydwaith ddod â gwell trafndiaeth gyhoeddus i ragor o gymunedau a chanolfannau economaidd.

## Integreiddio




Mae Metro'n cyfuno rheilffyrdd trwm, rheilffyrdd ysgafn a bysiau i ddarparu rhwydwaith ddi-dor. Gydag un tocyn, bydd modd i bobl symud yn gyflym a hawdd ar draws y rhanbarth. Bydd hefyd yn cysylltu â theithio llesol – seiclo a cherdded – er mwyn creu rhwydwaith hollol integredig.


## Adfywio

Bydd Metro'n darparu gwell adnoddau i deithwyr a manau canolog ar gyfer cymunedau o gwmpas gorsafoedd allweddol, ac yn ysgogi cyfleoedd ar gyfer rhagor o ddatblygu ac adfywio strategol ar draws y rhanbarth.

Rydym wedi cynhyrchu'r daflen hon er mwyn rhannu ein cynlluniau newydd am Metro gyda phawb sydd â diddordeb ym Metro, boed deithwyr neu bobl y diwydiant teithio.

## Brandio a lliwiau cerbydau Metro





## Pam fod angen Metro arnom

Wrth i'n poblogaeth dyfu, mae angen system drafnidiaeth gyhoeddus o'r radd flaenaf a fydd yn ein cadw i symud yn ein blaenau am genedlaethau i ddod.


### Prifddinas-Ranbarth Caerdydd

Mae gan Brifddinas-Ranbarth Caerdydd economi bywiog eisoës, ynghyd ag ansawdd bywyd ardderchog. Yma y mae'r ganolfan gynhyrchu teledu fwyaf y tu allan i Lundain. Mae ein sector gwasanaethau ariannol yn tyfu'n gyflym.




Mae gennym rai o'r stadia chwaraeon a sefydliadau diwylliannol gorau yn y byd. Mae canolfan gynadledda ryngwladol o bwys wrthi'n cael ei datblygu yng Nghasnewydd. Rydym wedi cynnal digwyddiadau ar lwyfan ryngwladol megis Cwpan Ryder a chynhadledd NATO. Mae Prifysgol Caerdydd bellach yn un o bum sefydliad Addysg Uwch gorau'r DU.

Er mwyn i'n heconomi allu tyfu a llewyrchu, cydnabyddir yn gyffredinol fod angen i Brifddinas-Ranbarth Caerdydd gael buddsoddiad mawr yn ei isadeiledd trafndiaeth.

Disgwylir i boblogaeth Caerdydd dyfu i dros 430,000 erbyn 2030



Disgwylir i boblogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ehangach dyfu o 1.5m i 1.6m dros yr 20 mlynedd nesaf



<sup>1</sup> Ystadegau Amcangyfrifon Poblogaeth Cymru: <http://bit.ly/1KTC9Wj>

## Trafnidiaeth ar gyfer y dyfodol: y tri phrif ddewis

Daw trafndiaeth gyhoeddus mewn llawer ffurf, ond dyma'r tri phrif ddewis sy'n debygol o ffurfio asgwrn cefn Metro. Rydym ni'n credu y gallai rheilffyrdd ysgafn, yn enwedig, chwarae rhan bwysig – ond lle'r diwydiant trafndiaeth yw awgrymu'r atebion gorau yn seiliedig ar yr amcanion sydd gennym ni.



RhT

### **Rheilffyrdd Trwm**

Byddwn yn diweddarau ein rhwydwaith rheilffordd gan ddefnyddio trenau diesel a thrydan modern. Mae dyluniad y trenau diweddaraf yn cynnig profiad gwell i'r teithiwr, mae'n haws mynd iddyn nhw, ac mae'r profiad gweithredu'n fwy effeithiol.



RhY

### **Rheilffyrdd Ysgafn**

Mae cerbydau rheilffyrdd ysgafn (neu dramiau) yn ddelfrydol ar gyfer teithio dinesig a maestrefol, gan ganiatáu gwasanaethau mwy rheolaidd a chyflym. Gallant gludo nifer fawr o bobl a symud yn hawdd naill ai ar drac/rheilffordd draddodiadol neu ar draciau a osodir yn y strydoedd.



TBC

### **Teithio Bws Cyflym**

Mae'r system hon, sy'n seiliedig ar fysiau, yn boblogaidd ledled y byd, ac mae'n teimlo mwy fel trên na'r bws traddodiadol. Bydd teithwyr yn prynu tocynnau mewn gorsafoedd arbennig, felly mae mynd ar y cerbyd yn hawdd a chyflym, a bydd y bysiau fel arfer yn rhedeg mewn lonydd penodedig er mwyn osgoi traffig. Mae gwasanaethau'n gyson, yn gyflym ac yn effeithiol.



# Ble rydym ni ar hyn o bryd?

Sefydlwyd Cwmni Trafnidiaeth Llywodraeth Cymru, o'r enw 'Trafnidiaeth i Gymru', er mwyn helpu darparu masnachfrait rheilffyrdd nesaf Cymru a'r Gororau ynghyd â cham nesaf prosiect Metro. Mae cyfuno'r ddau brosiect hyn yn ein caniatáu i wneud y mwyaf o ailfuddsoddi yn y rheilffyrdd a darparu gwasanaethau rhagorol.

Mewn datganiad ym mis Mawrth 2015, dywedodd y Prif Weinidog, 'Dyma brosiect sy'n newid popeth a does dim modd ei wneud mewn ffordd lugoer. Rhaid ei wneud yn iawn... rydym ni'n deall yn llwyr fod hwn yn gyfle unwaith mewn oes a allai drawsnewid gobeithion economaidd hyd at filiwn o bobl Cymru.'

Wrth i ni ddatblygu ein strategaeth gaffael, rydym ni'n bwriadu adlewyrchu'r uchelgais hwn. Rydym ni'n gweithredu mewn dull 'deilliant a chynnyrch': byddwn ni'n dweud wrth y diwydiant beth rydym eisiau ei weld o ran gwell mynediad i swyddi a gwasanaethau, effeithiau economaidd trawsnewidiol hirdymor, gwasanaethau mwy cyson a chyflym, ansawdd gwell a gwelliannau amgylcheddol.

Mae hyn yn rhoi'r cyfle mwyaf i ymgeiswyr fentro er mwyn ein helpu ni i ddarparu'r rhwydwaith drafndiaeth y mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd yn ei haeddu.


## Metro Cam 1

Rydym eisoes yn darparu buddsoddiad o £77miliwn mewn pecyn o welliannau isadeiledd Metro Cam 1, gan gynnwys gorsaf Tref Glynebwy, a agorwyd gan y Prif Weinidog ym mis Mehefin 2015. Mae'r llwybr hwn wedi bod yn boblogaidd iawn, gyda rhyw 800,000 o deithiau'n digwydd arno bob blwyddyn. Rydym hefyd wedi agor gorsaf newydd yn Pye Corner, wedi gwella gorsafoedd rheilffyrdd a bysiau ar draws y rhanbarth, a chreu cynlluniau newydd ar gyfer lonydd blaenoriaeth i fysis, teithio byw a pharcio a theithio.

## Metro Cam 2

Dyma rai o'r prosiectau sy'n cael eu hystyried gennym ar gyfer y cam nesaf:

- Gwelliannau i orsafoedd
- Gwell adnoddau cyfnewid
- Gwelliannau isadeiledd ar lwybrau craidd Trenau'r Cymoedd i'r gogledd o Gaerdydd, i ganiatáu ar gyfer gwasanaethau amlach a chyflymach
- Gorsafoedd ychwanegol ac ymestyn y rhwydwaith – er enghraifft Gabalfa a Heol Crwys
- Gwelliannau i Reilffordd Glynebwy a changen newydd i Abertyleri
- Rydym ni'n ystyried rhedeg gwasanaeth uniongyrchol o Gasnewydd i Gwm Ebwy
- Trafnidiaeth Gyflym Casnewydd i ddarparu gwell gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus, gan uno gyda'r rhwydwaith reilffordd a lleoliadau allweddol megis Celtic Manor a Celtic Springs
- Gwelliannau pellach ar Drenau Maesteg a gwasanaethau ar drenau Bro Morgannwg i Rhws/Maes Awyr Caerdydd



Map o'rwydwaith Metro arfaethedig

## Croeso i'r dyfodol


### Metro Cam 3 ac i'r dyfodol

Rydym ni'n gofyn i'r diwydiant trafnidiaeth gyflwyno syniadau newydd sbon a fydd yn trawsnewid y dull y byddwn ni'n teithio o gwmpas ein rhanbarth. Bydd y syniadau hyn yn ein helpu i ddyfarnu cytundeb newydd Metro, ynghyd â chytundeb Cymru a'r Gororau, yn 2017.


Bydd ffurf derfynol Metro yn y dyfodol yn dibynnu ar faint o arian fydd ar gael, a ble fydd modd gwario'r arian hwnnw orau. Ond dyma rai o'r prosiectau sydd dan ystyriaeth gennym:

- Gorsafoedd newydd yn Llaneirwg, Ffordd Casnewydd, Llanwern, Gorllewin Casnewydd, Magwyr, Caerllion, Melin Elai a Chrymlyn
- Ymestyn y rhwydwaith craidd i leoedd megis Nelson a'r Coed Duon
- Cyswllt uniongyrchol rhwng Caerffili a Chasnewydd
- Trafnidiaeth Bws Cyflym ar gyfer cynyddu hwylustod teithio ar draws y cymoedd
- Llwybrau newydd o ganol dinas Caerdydd i ogledd orllewin y ddinas ac i mewn i Rondda Cynon Taf
- Cyswllt uniongyrchol o Gaerdydd Canolog i Fae Caerdydd
- Ymestyn cangen y Bae ymhellach i Fae Caerdydd

### Cerdyn cyflym Metro



### Cerdyn undydd Metro



Darluniadol yw'r manylion a gyflwynir yn y llyfryn hwn ac i bwrpas gwybodaeth gyhoeddus yn unig. Nid ydynt yn darparu cadarnhad o'r un cynllun penodol, nac yn cyfyngu ar nac yn rhwystro ein strategaeth gaffael na'r hyn y gallai ymgeiswyr eu cynnig mewn unrhyw broses gaffael.